

Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru

Datganiad i'r Wasg

I'w ryddhau ar unwaith

02920 491818 | 07815 071164

www.neu.org.uk

[www.Facebook.com/nationaleducationunion](https://www.facebook.com/nationaleducationunion)

[www.Twitter.com/@NEUnion](https://www.twitter.com/@NEUnion)



9th November 2019

Mae angen gwneud mwy wrth baratoi ar gyfer y Cwricwlwm Newydd

Mae undeb addysg fwyaf Cymru wedi galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bo trefniadau ar waith ar gyfer hyfforddiant a datblygiad dwys i gefnogi gweithwyr addysg proffesiynol gyda dylunio cwricwlwm ac addysgeg, gyda digon o amser dysgu proffesiynol sydd ag adnoddau da, ac a ariennir, yn ystod y diwrnod ysgol ar gyfer yr holl staff. Mae Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru hefyd eisiau mwy o eglurder ynghylch yr hyn a ddisgwylir i bob myfyriwr ei gyflawni ar ddiwedd pob pwynt cynnydd yn y Cwricwlwm newydd.

Dywedodd **David Evans**, Ysgrifennydd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru:

“Bydd y Cwricwlwm 2022 newydd yma yng Nghymru yn gweld newid enfawr, ac mae'n galonogol gweld ein haelodau'n croesawu'r weledigaeth a amlinellodd yr Athro Donaldson yn 'Dyfodol Llwyddiannus'. Ond maen nhw'n iawn i dynnu sylw at yr effaith ar faich gwaith a'r angen am gyllid a dysgu proffesiynol digonol ar gyfer gweithwyr addysg proffesiynol.”

“Mae'r Cwricwlwm newydd yn newid sylweddol ar gyfer addysg yma yng Nghymru, ond mae'n amlwg bod angen mwy o fanylion am y Camau Dilyniant a'r trefniadau asesu, er mwyn sicrhau eu bod nid yn unig yn gallu cael eu cydgysylltu ledled Cymru, ond hefyd fel y gall gweithwyr addysg proffesiynol ddechrau cynllunio ar gyfer y newidiadau arfaethedig.”

GORFFEN

Roedd testun y cynnig i gynhadledd ar y mater hwn fel a ganlyn

Cynnig 10. Cwricwlwm Newydd

Mae Cynhadledd Cymru yn cydnabod goblygiadau mabwysiadu'r cwricwlwm newydd yn seiliedig ar argymhellion yr Athro Donaldson. Mae yna ymwybyddiaeth o'r goblygiadau baich gwaith posib wrth geisio gweithredu'r cwricwlwm newydd hwn. (e.e. Mae asesiad ffurfiannol, sy'n arbennig o ddefnyddiol i fyfyrwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn 'weinyddol' drwm; felly nid yn unig y dylid lleihau'r gymhareb oedolyn i ddisgybl i 1: 6, dylai fod digon o gefnogaeth weinyddol ar gael fel nad yw addysgwyr yn cael eu gwrthdymnu o ymgysylltu â disgyblion).

Mae Cynhadledd Cymru yn croesawu'r cwricwlwm newydd yn fras, a'r hyblygrwydd a roddir i athrawon wrth ddarparu cwricwlwm newydd. Mae Cynhadledd Cymru hefyd yn nodi nad oes digon o eglurder ynghylch yr hyn a ddisgwylir i bob myfyriwr ei gyflawni ar ddiwedd pob pwynt cynnydd (graddfa P). A fydd cydweithwyr yn cael digon o amser neu hyfforddiant ychwanegol i gynllunio, adeiladu a gweithredu'r cwricwlwm newydd?

Mae Cynhadledd Cymru hefyd yn nodi y gallai cynllunio cynllun gwaith / cwricwlwm cwbl newydd gael effaith negyddol ar faich gwaith staff gan arwain o bosibl at lefelau straen uwch a materion recriwtio a chadw.

Mae Cynhadledd Cymru yn nodi gyda phryder bod y diffyg eglurder ynghylch y cwricwlwm newydd yn parhau. Mae rhywfaint o awgrym bod ysgolion yn rhuthro i weithredu strwythurau a ffyrdd o addysgu nad ydynt yn angenrheidiol nac yn seiliedig ar ffaith o dan ymbarél "Donaldson".

Mae Cynhadledd Cymru yn bryderus y gall grwpio pynciau i Feysydd Dysgu a Phrofiad (MDPh) gollu arbenigedd addysgu pwnc unigol, sy'n niweidiol i ddisgyblion a phynciau ac yn niweidiol i staff cymwys iawn.

Cred Cynhadledd Cymru fod Adroddiad 'Dyfodol Llwyddiannus' Donaldson ar y Cwricwlwm yn nodi dychweliad i'w groesawu i addysgu a dysgu yn seiliedig ar wybodaeth leol, meddwl gwreiddiol a hunanfynegiant disgyblion. Ymhlith ei gryfderau mae'r ymddiriedaeth gynyddol mewn athrawon, rhoi terfyn ar wybodaeth ffeithiol sydd wedi'i gordanysgrifio a therfyn ar farnu ysgolion ar asesiad crynodol cyfyngedig o blant.

Fodd bynnag, credwn ei fod wedi'i baratoi'n wael iawn hyd yn hyn:

1. Bu cyfranogiad cyfyngedig o'r rhai sydd i fod i gefnogi datblygiad athrawon. Mae'r Consortia a Sefydliadau Addysg Uwch wedi dirprwyo eu cyfrifoldeb am ddatblygiad strategol i athrawon dosbarth ar secondiad.
2. Mae datblygiad i raddau helaeth wedi'i gyfyngu i ysgolion peilot, nad ydynt yn adlewyrchu amrywiaeth y mathau o ysgolion ac arbenigedd yr athrawon ynddynt.
3. Mae ysgolion peilot wedi cael meysydd cyfyngedig i'w hymchwilio, gyda gormod o lawer o bwyslais ar dechnoleg gwybodaeth ac ychydig iawn ar addysgu a dysgu – a ddylai fod y prif bwynt.

4. Mae cynllunio cwricwlwm ac asesiad wedi'i roi yn nwylo athrawon, gydag amser digyswllt ac adnoddau cyfyngedig, a chefnogaeth annigonol gan addysgwyr proffesiynol. Mae hyn yn gwrthdaro â chryfder gwreiddiol datblygu'r cwricwlwm, wedi'i gynorthwyo a'i wella gan gyrff fel Sefydliad Nuffield a'r Uned Asesu Perfformiad.

Nodwn i'r cwricwlwm ddrafft gael ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2019 ar gyfer sylwadau erbyn Gorffennaf 2019. Fodd bynnag, roedd hyn yn ystod cyfnod prysur iawn i ysgolion. Credwn fod yr amserlen ar gyfer yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y drafft yn rhy fyr ac mae'r amserlen ar gyfer gweithredu yn afrealistig.

Mae Cynhadledd Cymru yn cyfarwyddo'r Adran Weithredol trwy Bwyllgor Cymru i:

- i. Geisio eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch beth ddylai'r canlyniadau fod i fyfyrwyr ar ddiwedd pob graddfa 'P'.
- ii. Ofyn am gynnal asesiad effaith baich gwaith i ddarganfod effaith gweithredu'r cwricwlwm newydd.
- iii. Drafod ac ymgyrchu i sicrhau, er y gallai ysgolion unigol ddylunio cwricwlwm eu hunain, y dylai fod cydraddoldeb i ddisgyblion ledled Cymru er mwyn sicrhau nad yw plentyn sy'n symud o un rhan o Gymru i ran arall dan anfantais mewn unrhyw ffordd gan gwricwla lleol.
- iii. Barhau i ymgyrchu am fwy o gyllid cyfredol i gefnogi'r cwricwlwm newydd – nid yw taliad o un swm o arian am fynd yn bell. Mae angen ymrwymiad i ariannu datblygiad parhaus y cwricwlwm dros yr holl gyfnod gweithredu a thu hwnt.
- v. Gasglu gwybodaeth am effaith ad-drefnu ysgolion dan y dull "Donaldson" ar staffio, gan rannu gwybodaeth â swyddogion lleol ynghyd â'i ddefnyddio fel sail ar gyfer trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru.
- vi. Lobïo Llywodraeth Cymru i sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer hyfforddiant dwys ar ddylunio a datblygu'r cwricwlwm, gyda digon o amser dysgu proffesiynol sydd ag adnoddau da, ac a ariennir, yn ystod y diwrnod ysgol ar gyfer yr holl staff.
- vii. Roi pwysau ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y cwricwlwm newydd yng Nghymru yn adlewyrchu ysbryd a gweledigaeth 'Dyfodol Llwyddiannus'.
- viii. Ddarparu adnoddau a chyfleoedd dysgu proffesiynol i gefnogi gweithwyr addysg proffesiynol yng Nghymru gyda dyluniad y cwricwlwm ac addysgeg.

Diwygiad

- i.) Ychwanegu brawddeg newydd ar ddiwedd *viii*:

“Sicrhau bod ysgolion unigol yn derbyn cyllid wedi'i neilltuo er mwyn darparu'r adnoddau angenrheidiol a'r cyfleoedd dysgu proffesiynol o fewn y 1265 awr o amser a gyfarwyddir i baratoi ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd.”

Cysylltiadau'r wasg:

Mae'r Undeb Addysg Genedlaethol yn gyfuniad o Gymdeithas yr Athrawon a Darlithwyr (ATL) ac Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT), a ffurfiwyd ar 1 Medi 2017. Gweler y manylion cyswllt isod am gymorth:

Cyswllt: Stuart Williams, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru, Tŷ Sinnott, 18 Llys Neifion, Ffordd Vanguard, Caerdydd CF24 5PJ. Ffôn: 029 20491818. Symudol: 07795 295 355.

e-bost: stuart.williams@neu.org.uk

Nodyn i olygyddion:

- Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol yn sefyll ar gyfer dyfodol addysg. Mae'n dod â lleisiau athrawon, darlithwyr, staff cefnogi ac arweinwyr sy'n gweithio mewn ysgolion a cholegau cynaledig ac annibynnol ynghyd i ffurfio'r undeb addysg fwyaf yng Nghymru.
- Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol yn gysylltiedig â Chyngres Undebau Llafur (TUC), Pwyllgor Undeb Llafur Ewrop ar gyfer Addysg (ETUCE) ac Addysg Ryngwladol (EI). Nid yw'n gysylltiedig ag unrhyw blaid wleidyddol ac mae'n ceisio gweithio'n adeiladol gyda'r holl brif bleidiau gwleidyddol.